


# DEVELOPMENTAL DELAY

## What is Developmental Delay?

The term 'developmental delay' or 'global development delay' is used when a child takes longer to reach certain development milestones than other children their age. This might include learning to walk or talk, movement skills, learning new things and interacting with others socially and emotionally. A developmental delay can occur in just one area or in a few.

## Global Developmental Delay

A *global developmental delay* is when children have delays in at least two areas. A child with another condition, like Down's syndrome or Cerebral Palsy, may also have global developmental delay. It's important to remember that every child is unique and will develop at their own pace.

## Inclusive Strategies

Each child diagnosed with Global Developmental Delay will be different and individual. It is important to work closely with the parents as well as any additional support specialists. The following strategies are just some examples which may be applied to support the inclusion process. Encourage staff to ask parents about the strategies they use.

### Social development

- Use strategies to assist children separating from parent e.g. set a routine in saying goodbye, finding a book to read.
- Value and acknowledge child's efforts.
- Let other children know what child is doing to reinforce the concept of him being part of the group. Do this with all children e.g. "Look Jack is doing a puzzle as well".

### Physical development

- Provide simple obstacle courses that the child is capable of completing to experience success.
- Provide finger plays to encourage the use of both hands in a controlled manner as well as developing fine motor skills.
- Plan for fine motor developmental tasks with adaptive equipment such as thick crayons, thick-handled paint brushes that are easy to grasp.

### Language development

- Use visual strategies, gestures/signs e.g. Makaton to reinforce what you are saying.
- Para-phrase back what the child has said.  Clarify types of communication methods the child may use e.g. Makaton.  Label areas in the room with words and pictures.
- Reduce the amount of instructions in one statement to allow time for the child to gain an understanding of what is been said

### Cognitive development

- Plan experiences that are relevant to the child's world.
- Gain information from parents about child's likes, interests and dislike.
- Break tasks down to smaller steps e.g. placing one puzzle piece in a time rather than expecting the puzzle to be completed.
- Allow the child time to complete tasks and practice skills at own pace.
- Acknowledge level of achievement e.g. "you have placed that piece in the puzzle, well done" rather than just "Good boy".




# OEDI MEWN DATBLYGIAD

## Beth yw oedi mewn datblygiad?

Defnyddir y term 'oedi mewn datblygiad' neu 'oedi mewn datblygiad cyffredinol' pan fydd plentyn yn cymryd mwy o amser i gyrraedd cerrig milltir datblygu penodol na phlant eraill eu hoedran. Gallai hyn gynnwys dysgu sut i gerdded neu siarad, sgiliau symud, dysgu pethau newydd a rhyngweithio ag eraill yn gymdeithasol ac yn emosiynol. Gall oedi mewn datblygiad ddigwydd mewn un maes yn unig neu mewn sawl un.

## Oedi mewn Datblygiad Cyffredinol

Mae *oedi mewn datblygiad cyffredinol* yn cyfeirio at blant y mae oedi mewn o leiaf ddau faes o'u datblygiad Efallai y bydd gan blentyn sydd â chyflwr arall, fel syndrom Down neu barlys yr ymennydd, oedi mewn datblygiad cyffredinol hefyd. Mae'n bwysig cofio bod pob plentyn yn unigryw ac y bydd yn datblygu ar ei gyflymder ei hun.

## Strategaethau Cynhwysol

Bydd pob plentyn sy'n cael diagnosis o oedi mewn datblygiad cyffredinol yn wahanol ac yn unigryw. Mae'n bwysig gweithio'n agos gyda'r rhieni yn ogystal ag unrhyw arbenigwyr cymorth ychwanegol. Dim ond rhai enghreifftiau yw'r strategaethau canlynol y gellir eu defnyddio i gefnogi'r broses gynhwysiant. Anogwch y staff i holi'r rhieni am y strategaethau y maent yn eu defnyddio.

### Datblygu cymdeithasol

- Defnyddio strategaethau i gynorthwyo plant sy'n gwahanu oddi wrth eu rhieni e.e. gosod trefn wrth ddweud ffarwel, dod o hyd i lyfr i'w ddarllen.
- Gwerthfawrogi a chydnabod ymdrechion y plentyn.
- Rhoi gwybod i blant eraill beth mae'r plentyn yn ei wneud i atgyfnerthu'r cysyniad ei fod yn rhan o'r grŵp. Gwnewch hyn gyda phob plentyn e.e. "Edrychwch! Mae Jack yn gwneud jig-so hefyd."

### Datblygiad corfforol

- Darparu cyrsiau rhwystrau syml y mae'r plentyn yn gallu eu cwblhau i brofi llwyddiant.
- Cynnal dramâu bysedd i annog defnyddio'r ddwy law mewn modd rheoledig yn ogystal â datblygu sgiliau echddygol manwl.
- Cynllunio ar gyfer tasgau datblygiadol echddygol manwl gydag offer addasol megis creonau trwchus a brwshys paent â choesau trwchus sy'n hawdd cydio ynddynt.

### Datblygiad iaith

- Defnyddio strategaethau gweledol, ystumiau/arwyddion, e.e. Makaton, i atgyfnerthu'r hyn rydych yn ei ddweud.
- Aralleirio'r hyn mae'r plentyn wedi'i ddweud yn ôl iddo.  Egluro dulliau cyfathrebu y gall y plentyn eu defnyddio e.e. Makaton.  Labelu rhannau o'r ystafell gyda geiriau a lluniau.
- Lleihau nifer y cyfarwyddiadau mewn un datganiad er mwyn rhoi amser i'r plentyn ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud

### Datblygu gwybyddol

- Cynllunio profiadau sy'n berthnasol i fyd y plentyn.
- Cael gwybodaeth gan rieni am ddiddordebau plentyn, pethau mae'n eu hoffi a phethau nad yw'n eu hoffi.
- Torri tasgau i lawr i gamau llai e.e. rhoi un darn jig-so mewn ar y tro yn hytrach na disgwyl i'r pos gael ei gwblhau.
- Rhoi amser i'r plentyn gwblhau tasgau a sgiliau ymarfer ar gyflymder ei hun.
- Cydnabod lefel y cyflawniad e.e. "Rydych wedi rhoi'r darn hwnnw yn y jig-so. Da iawn!" yn hytrach na "Bachgen da" yn unig.